



Bu ffermio'n esblygu ar hyd y canrifoedd, gyda chropiau yn newid i ateb anghenion yr oes a phrosesau'n newid wrth i dechnoleg newydd ddod i'r amlwg. Yn sgil hyn, mae'r tirwedd yn newid, ac mae'r cymunedau sy'n ffermio'r tir heddiw yn wynebu dyfodol llawn her.

Mae ffermio'r gwynt yn garreg filltir glasurol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'n cyd-fynd ag amcan ffermio ar hyd yr oesoedd, sy'n gyforiog o etifeddiaeth a thraddodiad, sef defnyddio'r tir i gynhyrchu er budd pawb.

ASIANTAETH YNNI CONWY ENERGY AGENCY



e info@ailwynt.co.uk
w www.ailwynt.co.uk

Triodos @Bank

Rhybudd Pwysig Nid yw'r llyfryn hwn yn cynnwys cynnig neu wahoddiad i danysgrifio ar gyfer derbyn Bondiau. Bwrdir i fuddsoddiadau yn Ail Wynt Cyf, fod am dynor hir a gall incwm o'ch buddsoddiad amrywio. Efallai na chewch y swm llawn a fuddsoddiwyd yn ôl. Gall fod yn anodd gwerthu neu reatiddio etch buddsoddiad, neu gael gwybodaeth ddibynadwy am ei werth neu am risgiau eraill y gall fod yn agored iddynt. Bydd Ail Wynt Cyf yn cyhoeddi prosectws. Yr unig ffordd o gyflwyno ceistadau yw trwy lenwi'r ffurflen gais sydd yn y prosectws ac ar sail, ac yn dibynnu ar, yr wybodaeth a gynhwysir yn y prosectws. Cymeradwywyd y Cylchlythyr hwn gan Triodos Bank NV



Mae'r llyfryn hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Credir bod yr wybodaeth yma yn gywir wrth fynd i'r wasg. Ni ellir dal y cyhoeddwr nag AilWynt Cyf yn gyfrifol am unrhyw beth a hepgorwyd na chamgymeriadau

Cynllun gan:
Promote Environmental Communication
www.promotedesign.com

Argraffwyd ar bapur Revive heb ei orchuddio, yn rhydd o glorin ac wedi ei ailgylchu 100%, yn cynnwys 80% o gynnwys gwastraff ar ôl ailgylchu

Ffermwyr Gwynt

Dyma brosiect unigryw sy'n ffrwyno ynni naturiol. Fe'i crewyd a'i ddatblygu o fewn y gymuned ffermio leol, ac erys y berchnogaeth yn rhan o'r gymuned honno.



Y stori hyd yma

Chwilio am ateb i'r problemau oedd yn wynebu ffermio

Ffrwyth dychymyg tri theulu fferm fynydd o ardal Llanrwst yw'r prosiect hwn. Roedd eu bywoliaeth a'u ffordd o fyw dan fygythiad oherwydd sawl argyfwng a fu ym myd ffermio dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n anhygoel ystyried fod defaid mynydd yr ardal yn parhau dan waharddiad a chyfyngiadau oherwydd trychineb niwclear Chernobyl ym 1986 pan lygrwyd bryniau Cymru gan lwch ymbelydrol. Ar ben hyn i gyd, cyfyngwyd ar werthiant gwartheg oherwydd Clwyf y Gwartheg Gwallgof (BSE). Bu i'r ffactorau yma, ynghyd â phrisiau anwadal am eu cynnyrch, achosi incwm ffermwyr mynydd ostwng 75% dros gyfnod o dair blynedd.

Roedd yn rhaid chwilio am ateb i'r problemau! Yn ystod gaeaf trychinebus i ffermio ym 1997, a thra'n cyfrannu i brotest ym mhorthladd Caergybi, daeth yn gynyddol

amlwg i'r ffermwyr eu bod yn wynebu gwir galedi ariannol, yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch be fyddai dyfodol ffermio i'w plant. Canlyniad hyn oedd creu Cwmni Gwynt Teg yn gynnar ym 1998 er mwyn arallgyfeirio o weithgareddau ffermio traddodiadol a datblygu ffermwynt fach o dri thyrbin.

Tra'r oedd y tri ffermwr yn dioddef yn ddirfawr o'r amryfal argyfyngau amaethyddol, roeddynt yn sylweddoli bod ffermwyr mynydd yn berchen ar rai o'r safleoedd mwyaf cynhyrchiol yn Ewrop ar gyfer datblygu ynni o wynt. Felly, er nad oedd ganddynt gefndir o gwbl yn y diwydiant ynni gwynt, dechreuodd y teuluoedd ddatblygu, ariannu ac adeiladu fferm fyddai'n ffrwyno eu hased naturiol pennaf – y gwynt! Cymerodd bum mlynedd o ymroddiad llwyr a gwaith caled, a'r her fwyaf

oedd codi'r arian ar gyfer y fenter. Gwireddwyd y prosiect, sy'n cynnwys y 1000fed tyrbîn gwynt ym Mhrydain, ar ddechrau 2003 pan ddaeth Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, i agor y prosiect yn swyddogol.

Gwerthwyd un safle tyrbîn i gwmni Almaeneg er mwyn codi arian. Cwmni Gwynt Teg sydd berchen y ddau dyrbin arall.

Ar ôl llwyddiant y prosiect cyntaf, mae'r ffermwyr yn bwriadu ehangu'r safle, fydd yn ei dro yn rhoi mwy o fuddion i'r gymuned leol. Enw'r cam cyffrous (a'r terfynol) nesaf yw "Ail Wynt".

Croeso i stori gyfareddol y Ffermwyr Gwynt

Fferm wynt hynod lwyddiannus yw 'Cwmni Gwynt Teg' sy'n unigryw gan iddi gael ei chreu a'i datblygu drwy gydweithrediad ffermwyr lleol o ardal Nant Conwy – a'r ffermwyr hyn hefyd yw perchnogion y cynllun. Menter yw hon a gododd mewn ymateb i'r cwmp mewn incwm ffermio yn yr ucheldir. Mae'n cyflenwi ynni glân yn lleol, ac uchafbwynt ddiweddar y cynllun oedd ennill Gwobr Ynni Adnewyddol Ashden ym Mehefin 2003.

Mae cynllun ar y gweill i ehangu'r prosiect trwy ychwanegu 9 tyrbîn er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiect i'r dyfodol, tra'n cynnig buddion ychwanegol i'r gymuned leol.



Prif nod y prosiect

Datblygu pŵer gwynt er mwyn cynhyrchu trydan mewn modd sy'n cadw'r buddion economaidd yn y gymuned leol.



Yr angen am y math hwn o ynni



Nid oes amheuaeth bellach fod llosgi tanwydd ffosil yn y pwerdai traddodiadol yn achosi cynhesu byd-eang a phatrymau tywydd afreolaidd oherwydd gollyngiad carbon diocsid, sylffwr diocsid a nitrogen diocsid. Yn ei dro, mae hyn yn difrodi eco systemau bregus y ddaear. Yn Uwch-gynhadledd y Byd yn Kyoto, Siapan, daeth llywodraethau'r byd ynghyd i roi sylw i'r problemau amgylcheddol cynyddol sy'n wynebu'r blaned. O ganlyniad, gosododd llywodraeth San Steffan darged i gynhyrchu 10% o drydan o ffynonellau adnewyddol erbyn 2010. Ym mis Chwefror 2003, lluniodd y Cynulliad Cenedlaethol lwybr i Gymru fydd yn arwain at system drydan di-garbon. Hefyd, disgrifiwyd gweledigaeth o Gymru yn enghraifft i'r holl fyd o wlad yn cynhyrchu ynni glân mewn dull cynaliadwy. Drwy gydnabod yr angen i ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddol yng Nghymru, gosododd y Cynulliad Cenedlaethol darged o 4 Terra Watt Awr (Twh) (h.y. 4 biliwn Kilo Watt Awr) o gynhyrchiant ynni adnewyddol erbyn 2010, gyda nod o 7 Twh erbyn 2020. O blith yr holl dechnolegau cynhyrchu ynni adnewyddol, mae ynni gwynt ar y tir ymhell ar y blaen. Hon, sef y dechnoleg fwyaf effeithiol o ddigon, gaiff ei defnyddio i gynhyrchu cyfran sylweddol o darged y Cynulliad.

Os na weithredir yn lleol i ddatblygu ffynonellau ynni gwahanol, yna bydd newid hinsawdd yn debyg o newid tirwedd Cymru'n sylweddol am byth. Er mwyn atal problem fyd eang, mae'n rhaid derbyn a defnyddio'r dechnoleg sydd ar gael i ni heddiw.

Cefnogaeth gan y gymuned leol

Derbyniodd y prosiect gefnogaeth frwd gan y gymuned leol o'r cychwyn gyda 1500 o bobl yn bresennol ym mis Medi 2002 i ddatlu codi'r tyrbîn cyntaf. Yn ychwanegol, roedd 500 o bobl yno ar ddiwrnod rhewlyd ar y 31ain Ionawr 2003 pan agorwyd dau dyrbîn Cwmni Gwynt Teg yn swyddogol gan Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, ac ar gyfer lansiad swyddogol Ail Wynt.



Ennill Gwobr Genedlaethol

Enillodd y prosiect Wobr Ynni Adnewyddol Ashden ym mis Mehefin 2003, ar sail llwyddiant Gwynt Teg ynghyd ag Ail Wynt a'i gynlluniau sy'n torri cwys newydd o ran buddiannau i'r gymuned leol. Dewiswyd y prosiect o 25 cynllun technoleg adnewyddol ar draws Prydain. Mae'r wobwr yn cydnabod prosiectau ynni adnewyddol nodedig a blaengar, ac mae'n rhaid i'r enillwyr fod yn enghraifft dda ym maes ynni adnewyddol a bod yn ysbrydoliaeth i eraill eu dilyn. Yn arbennig, mae'r wobwr yn cydnabod cynlluniau sy'n ceisio lleddfu tlodi a/neu gwella ansawdd bywyd pobl tra'n gwarchod yr amgylchedd.

Yn y seremoni wobrwyo yn yr Amgueddfa Hanes Naturiol yn Llundain, cafodd y cyhoeddiad mai Cwmni Gwynt Teg oedd enillwyr 2003 groeso brwd gan bawb oedd yn bresennol. Ffrwydrodd yr emosiwn wedi'r cyhoeddiad, gyda'r garfan sylweddol o Gymry yn y gynulleidfa yn bloeddio canu "Hen Wlad fy Nhadau" a Jonathan Dimpleby, cyflwynydd y noson, wrth ei fodd yn eu harwain yn anffurfiol.



Y Ffeithiau

Y prosiect presennol – Cwmni Gwynt Teg

Cynhyrchiant

Mae'r prosiect presennol ar Foel Moelogan, "Cwmni Gwynt Teg" yn cynnwys dau dyrbîn sy'n gallu cynhyrchu uchafswm o 1300 Kilo Watt (Kw) o drydan yr awr. Mae'r trydan a gynhyrchir gan dyrbîn, mewn perthynas â'r uchafswm posibl, yn dibynnu ar nerth y gwynt. Mae safle arferol ym Mhrydain yn cynhyrchu trydan ar gyfradd o 30% o'r uchafswm. Ers dechrau cynhyrchu ym mis Ionawr 2003, bu'r tyrbînau ar Foel Moelogan yn cynhyrchu trydan ar gyfartaledd o 43% o'r uchafswm presennol, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos – sy'n gyfystyr â chynhyrchu ar nerth llawn 10 awr y dydd 365 diwrnod y flwyddyn. Mae cynhyrchiant y tri thyrbîn yn gyfartal ag anghenion 2500 o dai, hynny yw, bob cartref a phentref yn ardal Bro Garmon, yn ogystal â Llanrwst, Betws-y-coed a Threfriw. Mae tyrbîn ar safle arferol ym Mhrydain, yn cynhyrchu dwbl y trydan allai'r un tyrbîn ei gynhyrchu ar safle arferol yn yr Almaen, ac eto mae yno 14,500 o dyrbînau yn yr Almaen!

Mae'r trydan o Foel Moelogan yn mynd i is-orsaf Llanrwst 4.5km i ffwrdd ac fe'i gwerthir i'r Asiantaeth Brynu Ynni Di-Ffosil (NFPA) sy'n cynnal arwerthiant bob chwe mis i werthu'r trydan i'r cwmnïau cyflenwi.

Ariannu

Ariannwyd y prosiect cyntaf trwy fenthyciad o £1.7 miliwn gan Fanc Triodos (y prif fanc moesol ar gyfer ariannu prosiectau cynaliadwy), £366,000 o gyllid Amcan Un, a benthyciad o £460,000 gan Fanc Barclays. (Cyfanswm o 2.5 miliwn)

Perchnogaeth

Mae dau dyrbîn yn eiddo i'r cwmni o ffermwyr lleol. Mae'r trydydd tyrbîn yn eiddo i Energiekontor, sef cwmni datblygu prosiectau ynni gwynt o'r Almaen. Mae'r tyrbîn hwn yr un mor effeithiol â thyrbînau Cwmni Gwynt Teg ac mae hefyd yn cynhyrchu trydan i'w ddsbarthu'n lleol.



Y prosiect newydd – Ail Wynt

Cynhyrchiant

Yn wreiddiol, roedd y cynllun newydd i gynnwys 11 tyrbîn ychwanegol. Fodd bynnag, ar ôl ystyried barn rhai pobl leol a chyrrff cyhoeddus megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru fel rhan o'r broses ymgynghori, diwygiwyd y cynlluniau i gynnwys 9 tyrbîn ychwanegol yn unig, wedi eu lleoli yn nes at ei gilydd a chyda thyrrau is.

Os y defnyddir ffactor uchafswm ar-dir Prydain, sef 30%, yna rhagwelir y bydd y prosiect newydd yn cynhyrchu 30.7 miliwn Kw/h o ynni y flwyddyn, sy'n ddigon i bweru tua 7,300 o dai (16% o Sir Conwy). O ddefnyddio uchafswm 43% ar Foel Moelogan, bydd y safle'n cynhyrchu 44 miliwn Kw/h, sy'n ddigon o ynni ar gyfer 10,400 o dai.

Ariannu

Rhagwelir codi 75% o'r holl gostau trwy fanc masnachol fydd yn cadw'r hawl dros asedau Ail Wynt. Codir y 25% sy'n weddill trwy gyfuniad o'r cyfle buddsoddi lleol ac ymdrechion y cwmni ei hun.

Perchnogaeth

Yn unigryw yng Nghymru, y cwmni o ffermwyr fydd berchen ar 100% o'r prosiect.



Manteision niferus y cynllun



Mae Cymru'n unigryw oherwydd mai hon yw'r unig wlad yn yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi cynnwys datblygiad cynaliadwy yn y cyfansoddiad.

Cafwyd sawl diffiniad o ddatblygiad cynaliadwy, yn cynnwys:

- Datblygiadau sy'n ateb gofynion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu gofynion eu hun
- Trin y Ddaear fel pe byddem yn bwriadu aros arni
- Byw ar incwm y Ddaear yn hytrach na defnyddio'i chyfalaf

Pa bynnag ddiffiniad a ddefnyddir, mae Ail Wynt yn enghraifft ymarferol ar lefel leol o dair conglfaen datblygiad cynaliadwy – Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol

Cymdeithasol

- Trwy gynnig sicrwydd economaidd, mae'r prosiect o gymorth i ddiogelu dyfodol Cymru wledig, y diwylliant unigryw a'r traddodiadau cymdeithasol sy'n cynnwys y fferm deulu draddodiadol Gymreig. Yn bwysicaf oll, mae'n diogelu a chynnal yr iaith Gymraeg – un o ieithoedd byw hynaf Ewrop – er budd y cenedlaethau sydd i ddod.

- Bydd yn cynnig gwaith yn lleol – roedd yr holl gontractwyr adeiladu ar gyfer cam un yn dod o'r ardal leol ac mae holl aelodau'r cwmni yn cyflogi pobl leol yn eu busnesau gwledig eraill.
- Mae cadw 'arian newydd' o fewn y gymuned, fel mae cynllun blaengar Ail Wynt yn ei gynnig, yn ffordd o atal un o broblemau mwyaf difrifol cefn gwlad, sef pobl ifanc yn symud i ardaloedd trefol i chwilio am waith a thai rhatach.

Economaidd

- Mae'r prosiect yn unigryw ym Mhrydain gan mai dyma'r unig un dan berchnogaeth ffermwyr; felly erys y manteision economaidd yn y gymuned leol. Bydd cyfle i'r gymuned leol fanteisio'n ariannol drwy fuddsoddi yn y prosiect. Hefyd bydd yn codi ymwybyddiaeth o'r angen am ynni adnewyddol yn fyd-eang, a ffermydd gwynt yn lleol. Mantais arall yw y bydd blynyddoedd gwyntog (cynhyrchiol) eto'n cryfhau'r cyswllt hwn drwy gynyddu'r enillion ariannol i'r buddsoddwyr.
- Bydd y prosiect yn rhoi arian i Gynllun Grant Arbed Ynni fydd yn cael ei ddatblygu a'i reoli gan Asiantaeth Ynni Conwy – sy'n brosiect Leader+. Chwaraeodd Gwynt Teg / Ail

Wynt ran blaenllaw wrth lunio amrediad cymunedol yr Asiantaeth yma. Bydd grantiau yn cael eu rhoi'n uniongyrchol i gartrefi yn Nant Conwy brynu a gosod offer arbed ynni, fydd yn eu tro yn cynyddu ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol, yn cynnwys yr angen i arbed ynni. Bydd hyn yn ei dro yn annog diwydiant lleol, a thrwy arbed arian o filiau ynni y gymuned, bydd hefyd yn gwella'r economi lleol.

Amgylcheddol

- Mae'r egni a gynhyrchir yn adnewyddol h.y. nid ffynhonnell fydd yn dod i ben yw hon (megis olew neu nwy).
- Mae'n ynni glân nad yw'n gollwng unrhyw nwyon niweidiol o unrhyw fath, yn bennaf carbon diocsid, sylffwr diocsid a nitrogen diocsid.
- Mae o gymorth oherwydd ei fod yn cadw ffermwyr ar y tir, a chynnal tirwedd ucheldir naturiol Cymru yn yr un modd ag y gwnaeth ffermwyr o un genhedlaeth i'r nesaf ar hyd y cenedlaethau.
- Mae ynni gwynt yn ddiogel i iechyd dynol. Cymharwch hyn â'r atomfeydd cyfagos a gaewyd yn ddiweddar oherwydd ofnau ynghylch eu diogelwch, neu etifedd trychineb Chernobyl ym 1986.



Rhoi i'r gymuned leol

Bydd y prosiect yn rhoi £50,000 bob blwyddyn (gyda chyfraniad punt am bunt yn gwneud hyn yn £100,000) i gynorthwyo rhaglen effeithiolrwydd ynni yn Nant Conwy. Bydd hyn o gymorth i gynhesu tai ac atal y risg i iechyd sy'n dod yn sgil byw mewn tai oer a llaith. Bydd hefyd yn rhoi £15,000 y flwyddyn i'w rannu rhwng dau gyngor cymuned lleol ar gyfer unrhyw fenter arall.

Gofalu am yr amgylchedd

Bydd tua 300 erw o'r safle yn cael ei sefydlu gan Ail Wynt fel gwarchodfa i adar, ac i warchod cynefinoedd corsiog bregus sy'n prinhaus. Trwy weithio gyda'r RSPB, rheolir y tir er mwyn annog magu rhywogaethau mewn perygl megis cornicyll y gors, gylfinir a chornicyll y mynydd, yn ogystal ac adar tir fferm eraill. Mae iechyd dynoliaeth a'r blaned yn dibynnu ar fioamrywiaeth, neu'r ystod o rywogaethau sy'n dibynnu ar yr eco-systemau bregus. Oherwydd y modd mae ffermwyr wedi gofalu am dir Prydain ers canrifoedd, bu tir fferm yn gynefinoedd pwysig ar gyfer bywyd gwyllt, ond erys bywyd gwyllt dan fygythiad. Bydd y rhaglen yma gyda'r RSPB yn gyfle i wneud cyfraniad cadarnhaol i gadw ac annog bywyd gwyllt yn yr ardal.

Safle llwyddiannus

Mae'r safle wedi profi ei effeithlonrwydd ers dechrau gweithredu, gyda effeithlonrwydd cyffredinol o 43% sy'n sylweddol uwch na'r safle cyffredinol.

Cynllun peilot

Gall y prosiect weithredu fel model i gymunedau ffermio mynydd eraill ar draws Cymru. Wledig a thu hwnt ei ddefnyddio fel achos astudiaeth. Gallai hyn gynorthwyo'r llywodraeth i leddfdu'r problemau sy'n wynebu amaethyddiaeth a lleihau gollyngiadau nwyon tygydr ar yr un pryd.

Is-adeiledd

Mae'r is-adeiledd, yn arbennig y cysylltiad drud rhwng y tyrbinau â'r Grid Cenedlaethol, eisoes yn bodoli ac yn medru cario'r cynnydd mewn cynhyrchiad. Gall y llinell drosglwyddo rhwng 20Mw a 24Mw (bydd arolwg yn cadarnhau'r ffigwr terfynol). Oherwydd mai tyrbinau 1.3Mw/h a ddefnyddir, golyga hyn mai rhwng 15 ac 18 fyddai'r nifer uchaf bosib o dyrbinau, ond bydd safle Moel Moelogan wedi ei ddatblygu'n llawn gyda 12 tyrbinau.

Maint y datblygiad

Yn hytrach na chasgliad enfawr o dyrbinau, bydd y prosiect o faint priodol i anghenion lleol.

Cyfle i bobl leol fuddsoddi

Bydd yr ehangiad yn cael ei ariannu'n rhannol trwy gyfleuoedd i fuddsoddi yn y cwmni i godi lleiafswm o £1 miliwn, a chynigir y cyfle hwn i'r gymuned leol. Amcangyfrifir mai lleiafswm o 8% fydd yr ad-daliad blynyddol ar y buddsoddiad, gyda thaliad bonws ar gyfer blynyddoedd cynhyrchiol.



Cefnogaeth gan fudiadau lleol

Roedd Ail Wynt yn awyddus i gynnwys mudiadau lleol yn y cynlluniau gymaint ag sy'n bosib, a chafwyd cefnogaeth gan ystod eang o grwpiau sy'n cynnwys Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cyfeillion y Ddaear, yr Eglwys leol yng Nghymru, ynghyd â chymeradwyaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r RSPB.

Adnoddau Addysgol

Nid oes amheuaeth fod y cenedlaethau i ddod yn mynd i ddibynnu mwy a mwy ar ffrwyno ynni natur, felly mae'n hanfodol cynyddu ymwybyddiaeth ein plant am faterion amgylcheddol. Er mwyn cynnig enghraifft ymarferol o hyn, bydd y Cynllun Arbed Ynni yn targedu ysgolion lleol er mwyn gosod offer adnewyddol megis celloedd Ffotofoltäig.

Mae Cwmni Gwynt Teg eisoes wedi derbyn nifer o ymweliadau maes gan ysgolion a Phrifysgolion. Bydd safle Ail Wynt hefyd ar gael ar gyfer ymweliadau gan ysgolion, a bydd pecyn addysgol yn cael ei ddatblygu.



Cwestiynau a ofynnir amlaf

Beth am effaith weledol y tyrbinau gwynt?

Mae cwmni Ail Wynt yn llwyr werthfawrogi'r pryderon am effaith weledol y datblygiad. Wrth galon y cwmni mae'r angen i ddiogelu prydferthwch naturiol tirwedd ucheldir Cymru ar gyfer y cenedlaethau i ddod. Felly gwnaed pob ymdrech i leoli'r tyrbinau mewn safleoedd sy'n cael yr effaith leiaf o safbwynt gweledol. Bydd y mwyafrif o'r tyrbinau newydd yn cael eu lleoli ar dir is mewn pant naturiol, ac o'r herwydd, bydd yn anodd gweld y datblygiad o sawl ardal leol.

Mae llawer o bobl yn ystyried tyrbinau gwynt yn osgeiddig neu hyd yn oed yn ffurfiau celfyddydol therapiwtig yn ein tirwedd. Rydym yn sylweddoli nad dyma yw barn bawb, ond maent heb os nac oni bai yn llawer prydferthach na gorsafoedd ynni traddodiadol sy'n chwydu cymylau mwg.

Hefyd, mae dadl fod melinau gwynt wedi bod yn rhan o dirwedd Cymru ers canrifoedd, ac mai'r ymgorfforiad diweddaraf o'r genre yma yw'r ffermydd gwynt.

A yw'r safle mewn lleoliad amgylcheddol sensitif?

Nid yw o fewn Parc Cenedlaethol Eryri nac yn Ardal o Brydferthwch Naturiol Neilltuol. Nid yw chwaith yn ardal benodedig arall megis Gwarchodfa Natur Genedlaethol neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r safle o fewn Ardal Gwarchod Tirwedd, ac ystyriwyd hyn yn ystod y broses cynllunio a datblygu.

Nid yw'r prosiect yn cael effaith andwyol ar gynefinoedd naturiol na safleoedd archeolegol. Hefyd, oherwydd mai ychydig bach iawn o gynnal a chadw mae'r tyrbinau eu hangen, ni fydd cynnydd sylweddol yn y traffig yn yr ardal yn yr hir dymor.

A yw'n well datblygu ffermydd gwynt ar y môr?

Yn gyffredinol, derbynir ei bod yn rhatach cynhyrchu trydan ar dir nag ar y môr. Fodd bynnag, mae'r cwmni yn cefnogi ffermydd gwynt ar y môr oherwydd byddant yn elfen bwysig o strategaeth ynni adnewyddol cyffredinol Cymru. Bydd ffermydd gwynt ar y môr yn amlwg iawn o ardaloedd poblog sy'n dibynnu ar dwristiaeth, fel sydd i'w weld ar hyn o bryd ar hyd arfordir Gogledd Cymru, ond yn amlwg ni fyddant yn cael yr un effaith weledol ar dirwedd cefn gwlad. Fodd bynnag, ni fydd ganddynt ychwaith fanteision cynllun Ail Wynt megis mynediad hawdd er mwyn cynnal a chadw a manteision ariannol i'r gymuned leol oherwydd perchnogaeth leol – sef yr elfennau a sicrhaodd fod Ail Wynt yn ennill gwobr bwysig.

A yw tyrbinau gwynt yn or-swillyd?

Na, mae rheolau caeth sy'n rhaid cadw atynt. Oni bai am ffermydd Moelogan Fawr, dim ond un eiddo arall sydd o fewn un cilomedr i'r safle. Dengys profion fod y lefelau swm yn gyfforddus o fewn y lefelau sy'n cael eu hargymell. Bydd y swm yn cael ei fonitro'n gyson gan awdurdod annibynnol.

A yw tyrbinau gwynt yn cael effaith ar brisiau tai?

Er bod rhai wedi honni fod prisiau tai yn gostwng ger ffermydd gwynt, dengys arolygon nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn. Yn wir, dengys yr unig arolyg cynhwysfawr, a gomisiynwyd yn America, o 25,000 o dai o fewn radiws o 5 milltir i nifer o ffermydd gwynt mai'r unig newid mewn gwerth tai oedd cynnydd bach.

A yw hwn yn lleoliad derbynol i gynhyrchu ynni o wynt?

Dengys y broses asesu amgylchedd na fydd y cynnig yn achosi unrhyw niwed i ddiddordebau cynllunio. Bydd cyfraniad y cynllun i amcanion Cymru o gynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddol yn llawer mwy manteisiol nag effaith fach y datblygiad ar y tirwedd lleol.

Ai'r cwmni lleol fydd berchen y tyrbinau newydd?

Ia. Ail Wynt fydd berchen 100% o'r tyrbinau newydd.

Faint o drydan a gynhyrchwyd ers i'r prosiect ddechrau?

Dechreuodd Cwmni Gwynt Teg gynhyrchu trydan ar y 15fed Ionawr 2003. Cynhyrchodd y ddau beiriant, hyd at y 14eg Mehefin 2003, gyfanswm o 3.6 miliwn Kw/h mewn cyfnod oedd yn cynnwys mis cyntaf pan gyfyngwyd y peiriannau i redeg ar 70%, ac nad oedd yn cynnwys y tymhorau mwyaf gwyntog – yr hydref a'r rhan fwyaf o'r gaeaf.

Er hyn, cynhyrchodd y tyrbinau ynni di-lygredd ar gyfradd cynhyrchu o 43.5%, sy'n galonogol dros ben. O roi hyn mewn cyd-destun, cyfradd gynhyrchu gyfartalog Prydain am flwyddyn gyfan yw 30% sy'n rhoi syniad o ba mor addas yw Moel Moelogan fel safle delfrydol ar gyfer cynhyrchu trydan o wynt. Gwerthir yr holl drydan fel y'i cynhyrchir (am bris cytundeb o 5.1c y Kw) i'r Asiantaeth Brynu Ynni Di-Ffossil (NFPA).

Crynodeb

Roedd enill Gwobr Ashden yn gydnabyddiaeth o bwysigrwydd y cynllun hwn ynghyd â'i natur gynaliadwy, yn ogystal â pharodrwydd y cwmni i wrando ar farn y gymuned. Mae'n rhaid cymryd camau pendant i herio problemau ffermio yn ogystal â'r niwed amgylcheddol mae

cynhyrchu trydan o ffynonellau traddodiadol yn ei achosi. Mae Ail Wynt yn gam naturiol ymlaen o ddatblygiad llwyddiannus Gwynt Teg.

Gobeithiwn y gallwn ddibynnu ar eich cefnogaeth i'r prosiect hwn fydd o gymorth i'r ardal a'r gymuned leol

- Arbed 32,000 tonnau o garbon diocsid bob blwyddyn
- Arbed 304 tonnau o nitrogen diocsid bob blwyddyn
- Perchnogaeth leol 100%
- Rhoi o leiaf £200,000 i'r economi lleol bob blwyddyn
- Enillwyr Gwobr Ashden 2003
- Cynllun Arbed Ynni sy'n torri cwys newydd
- Cyfle unigryw i bobl leol fuddsoddi
- Yn bosibl i gymunedau trwy Brydain gopio'r cynllun
- Cymeradwyaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Gweithio gyda'r RSPB
- Cefnogaeth yr Eglwys leol yng Nghymru
- Cefnogaeth Undeb Amaethwyr Cymru
- Cefnogaeth Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Yr unig brosiect cydweithredol o'i fath rhwng ffermwyr ym Mhrydain